

Partneriaeth Natur Leol Caerdydd

Cylchlythyr y Gaeaf

Garddio Bywyd Gwylt yn y Gaeaf

Y gaeaf yw'r adeg pan fyddwn yn tacluso ein gerddi a'n manau gwyrdd yn barod ar gyfer twf newydd yn y gwanwyn. Mae taro cydbwysedd rhwng cynnal y gofod i gyd-fynd â'n hanghenion a gadael ardaloedd yn wyllt er mwyn bod o fudd i fydd natur yn gallu bod yn anodd.

Wrth i'r tywydd newid dros y misoedd nesaf, mae'n bwysig peidio â chlirio a thacluso'n rhy fuan na'n rhy drylwyr. Drwy weithio ar ran fach ar y tro byddwch yn rhoi cyfle i fywyd gwylt symud i rywle arall a chreu cartref newydd.

Rydym wedi lansio ymgyrch ymwybyddiaeth o'r Chwilen Gorniog i bwysleisio pwysigrwydd pydredd naturiol yn ein gofodau awyr agored. Gall pentwr o logiau sy'n pydru ddarparu bwyd a lloches i rywogaethau prin, fel y Chwilen Gorniog, a chreaduriaid eraill sydd wrth eu boddau'n gwneud cartrefi mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu tarfu arnynt.

Ydych chi wedi gweld Chwilen Gorniog?

Rydym yn gwybod eu bod yn byw yng Nghaerdydd felly rhowch wybod i ni os ydych chi'n ddiagon ffodus i weld un.



Mae Chwiled Corniog benywaidd yn dodwy eu hwyau o dan y ddaear ger pren sy'n pydru.



Mae larfa'n deor o'r wyau ac yn bwydo ar y pren am 3 i 5 mlynedd nes eu bod yn tyfu'n oedolion..



Chwiled Corniog yw'r chwilen fwyaf yn y DU, ond maen nhw'n bethau prin.



Mae planhigion marw yn darparu cartref ar gyfer chwiled ac ymlusgiaid sy'n gaeafu. Hyd yn oed ar ôl diwrnodau cyntaf y gwanwyn, mae ein bywyd gwylt yn dal i gymryd lloches yn rhannau anniben ein gardd rhag ofn y bydd cyfnod oer arall.

Partneriaeth
Natur Leol
Caerdydd



Cardiff
Local Nature
Partnership

Ar ôl clirio gofod yn ofalus i blannu hadau a bylbiau newydd, meddyliwch am y math o blanhigion rydych yn eu dewis. Ydyn nhw'n addas i fywyd gwylt neu'n frodorol i Gymru? Pa rannau o'r gofod y gellir eu gadael heb eu cyffwrdd am fwy o amser? [Gallwch ddefnyddio'r adnodd hwn gan yr RHS ar gyfer syniadau planhigion.](#)



Un o'r pethau hawsaf a rhataf y gallwn ei wneud yw aros i weld yr hyn a fydd yn tyfu. Bydd llawer o blanhigion sy'n dda i bryfed peillio'n ymddangos yn ein gerddi os ydynt yn cael cyfle.

Os nad ydych yn siŵr am yr hyn sy'n tyfu, mae sawl teclyn fel [Seek by iNaturalist](#) · [iNaturalist](#) sy'n gallu helpu i adnabod rhywogaethau drwy dynnu llun.

Beth am greu pwll?

Mae'n ymddangos yn adeg ryfedd i siarad am bwysigrwydd darparu dŵr ar gyfer bywyd gwylt pan fo'n dywyll ac yn wlyb y tu allan, ond yr haf hwn cafwyd sychder yng Nghaerdydd ac ar draws y DU. Y gaeaf yw'r amser gorau i greu neu adfer pwll gan y bydd glaw a thymheredd oerach yn ei helpu i sefydlu'n gyflym. Wrth ddewis safle, mae lle

sy'n heulog yn y bore ac yn cael ei gysgodi ddiwedd y prynhawn yn ddelfrydol. Bydd creu ardal gorslyd o amgylch eich pwll a phlannu planhigion gardd gors yn darparu bwyd a lloches i ystod eang o fywyd gwylt.

Gall Partneriaeth Natur Leol Caerdydd gynnig arian i grwpiau cymunedol ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi natur gan gynnwys creu pyllau drwy Gronfa Prosiect Cymunedol.



Gwnaeth Vision 21, elusen sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu, gais am arian i helpu i adfer pwll a chreu gardd gors newydd yng Nghanolfan y Sbectwm yn Y Tyllgoed. Byddwn yn darparu leininau pyllau newydd a phlanhigion pyllau brodorol a phlanhigion cors.

Plannu ar gyfer pryfed peillio mewn ysgolion



Mae Partneriaeth Natur Leol Caerdydd yn gweithio gyda Buglife Cymru ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd darparu lle i natur. Ychydig iawn o fannau gwyrdd sydd gan nifer o ysgolion o amgylch Caerdydd felly rydym wedi bod yn chwilio am gyfleoedd i blannu planhigion i bryfed peillio i fywiogi meysydd chwarae ac i gefnogi pryfed peillio.

Hoffem glywed gennych

Os oes gennych ardd gymunedol yr hoffech ei gwneud yn well i fywyd gwylt neu os hoffech rannu unrhyw newyddion am brosiectau natur lleol, cysylltwch â ni drwy e-bostio bioamrywiaeth@caerdydd.gov.uk



Os hoffech ymuno â rhestr bostio Partneriaeth Natur Leol Caerdydd a derbyn newyddion a diweddariadau ar brosiectau natur lleol, cysylltwch â bioamrywiaeth@caerdydd.gov.uk

Mae mwy o wybodaeth am fywyd gwylt yng Nghaerdydd ar wefan Awyr Agored Caerdydd

[Bywyd Gwylt a Bioamrywiaeth - Awyr Agored Caerdydd](#)